Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Busnes

Tachwedd 2017

# Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried Cyllideb 2018 – 2019

1. Ar 12 Gorffennaf 2017, ysgrifennodd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip at y Pwyllgor Busnes gyda dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2018-19, yn unol â Rheol Sefydlog 20.2.

2. Ar 19 Medi, yn unol â Rheol Sefydlog 20.4, wedi iddo ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid, lluniodd y Pwyllgor Busnes yr amserlen a ganlyn er mwyn ystyried cyllideb 2018-19.

3. Ar 14 Tachwedd 2017, yn unol â Rheol Sefydlog 20.6, diwygiodd y Pwyllgor Busnes yr amserlen ar gyfer ystyried cyllideb 2018-19 fel a ganlyn:

| | **Dyddiad** |
|---|---|
| **Gosod cynigion amlinellol ar gyfer cyllideb y Llywodraeth** | 3 Hydref 2017 |
| **Gosod cynigion manwl ar gyfer cyllideb y Llywodraeth** | 24 Hydref 2017 |
| **Y dyddiad cau i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad ar gynigion amlinellol cyllideb y Llywodraeth** | 1 Rhagfyr 2017 |

| | |
|---|---|
| **Y dyddiad cau i'r pwyllgorau eraill gwblhau eu hystyriaeth o'r cynigion manwl ar gyfer y gyllideb** | 1 Rhagfyr 2017 |
| **Cyflwyno cynnig y gyllideb flynyddol** | 19 Rhagfyr 2017 |